# SL(6)659 – Rheoliadau Newid Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o gyfres o Reoliadau y cyfeirir atynt ar y cyd fel Rheoliadau Newid Hinsawdd (Cymru) 2025, sydd hefyd yn cynnwys Rheoliadau Newid Hinsawdd (Cyllideb Garbon) (Cymru) 2025 (sy'n gosod cyllideb garbon, a elwir yn Gyllideb Garbon 4, ar gyfer 2031-2035) a Rheoliadau Cyfrifyddu Carbon (Cymru) (Diwygio) 2025 (sy'n diwygio'r diffiniad o uned garbon).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod terfyn ar swm yr unedau carbon y caniateir eu credydu i gyfrif allyriadau net Cymru, yn unol ag adran 33(4) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").

Mae Rheoliad 2 yn gosod terfyn ar swm yr unedau carbon y caniateir eu credydu i gyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer cyfnod cyllidebol 2026-2030 i 0% o'r gyllideb garbon.

Cyn gosod y Rheoliadau drafft, cafodd Gweinidogion Cymru gyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd, ac ystyried y cyngor, yn unol ag adran 49(1) o Ddeddf 2016.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol;**

Mae rheoliad 2 yn cyfeirio at nifer o dermau a ddiffinnir gan y Ddeddf wreiddiol i'r rheoliadau hyn, sef Deddf 2016. Mae Adran 53 o Ddeddf 2016 yn diffinio "uned garbon", "cyfrif allyriadau net Cymru", "cyfnod cyllidebol" a "chyllideb garbon". Nid yw Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu bod gan ymadroddion a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth yr ystyr sydd ganddynt yn y Ddeddf y gwneir yr is-ddeddfwriaeth oddi tani. O ganlyniad, ni fydd gan y termau hynny'r un ystyr diffiniedig yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn ag sydd ganddynt yn Rhan 2 o Ddeddf 2016, yn absenoldeb darpariaeth dehongli benodol o'r fath. Mae paragraff 4.12(1) o *Drafftio Deddfau i Gymru* yn datgan fel a ganlyn:

*"Gan hynny, dylai is-offeryn Cymreig gynnwys darpariaeth bendant lle bynnag y bwriedir i ymadrodd gario ystyron sy'n dod o'r ddeddfwriaeth sylfaenol"*.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 3 Tachwedd 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.